

JONES, THOMAS ('Glan Alun'; 1811 - 1866), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

**Enw:** Thomas Jones  
**Ffugenw:** Glan Alun  
**Dyddiad geni:** 1811  
**Dyddiad marw:** 1866  
**Plentyn:** Annie Alun Jones (née Jones)  
**Plentyn:** Sidney Margaret Roberts (née Jones)  
**Plentyn:** John Thomas Alun Jones  
**Rhiant:** John Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Mawrth 1811 yn 'siop Cefn-y-gader' yn yr Wyddgrug, yn fab i John Jones (o Gefn-y-gadair yn Llanellidan, a chyn hynny o'r Hendre, plwy Derwen), mab i JOSEPH JONES o'r Seined ger Rhuthun - 'Joseph y Seined'. Antinomiad, a ffurfiodd sect yn ystod y rhwyg (1750) rhwng [Harris a Rowland](#); gweler arno J. H. Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool*, i, 226, a [The Moravian Brethren in North Wales](#)  (*Y Cymmrodor* 1938, 64-9).

Cafodd addysg dda, ac amlygodd duedd at lenyddiaeth yn fachgen bychan iawn. Bu'n brentis fferyllydd yng Nghaerlleon Fawr, ac yno bu'n ysgrifennu ar yr orgraff yn *Goleuad Cymru*; yna, wedi bwrw tymor yn Llundain, agorodd siop yn Wrecsam; yno, 1835-6, cyhoeddodd gylchgrawn byrhoedlog, *Y Wenynen*, o'i waith ei hunan gan mwyaf. Daeth yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Calфинаidd. Bu farw ei dad yn 1841; symudodd yntau i'r Wyddgrug; priododd yn 1843; ordeiniwyd ef yn 1850. Cwbl ddidrefn oedd gyda'i fasnach; drysodd ei amgylchiadau ac aeth yntau i yfed yn ormodol, felly diarddelwyd ef. Bu farw ei wraig yn 1856, gan adael chwech o blant bychain; ac aeth pethau o ddrwg i waeth; ond ar ôl troi ei law at amryw bethau (megis gwneuthur canhwylau), cafodd le fel teithiwr masnachol, ac ailgychwynnodd bregethu ac areithio; yr oedd hefyd yn eisteddfodwr selog. Ailbriododd yn 1865. Bu farw 29 Mawrth 1866. Heblaw nifer helaeth o ysgrifau yn *Y Traethodydd* a chyfnodolion eraill, cyhoeddodd *Fy Chwaer*, 1844, *Ehediadau Byrion*, 1862, a dwy gyfrol o gyfieithiadau o chwedlau Esop. Yn y mesurau rhyddion y canai. Fel pregethwr, areithiwr ar wleidyddiaeth, a bardd, dyn rhugl iawn oedd; disgrifia [Daniel Owen](#) ef fel 'dyn hyll a phrysur,' yn 'braidd gyffwrdd' â phopeth, ond yn llednais a diniwed. Nid pawb a gafodd ysgrifau coffa gan dri gwr fel '[Ceiriog](#)' (*Y Traethodydd*, 1868), '[Gwalchmai](#)' (*Y Dysgedydd*, 1879), a [Daniel Owen](#) (*Y Geninen*, 1886).

Priododd ei ferch hynaf y Cenhadwr [John Roberts](#) (1842 - 1908, priododd merch arall iddo a [J. Puleston Jones](#); a bu mab iddo JOHN THOMAS ALUN JONES (23 Awst 1851 - 1 Mai 1929), yntau'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, yn llyfrgellydd a chofrestrydd Coleg y Bala am flynyddoedd lawer. Yr oedd yn llenor coeth, ond hynod wylaidd; ymddiddorai yn yr hen Biwritaniaid a'r cyfrinwyr, a sgrifennodd yn dda arnynt yng nghylchgrawn y coleg. Cyhoeddodd yn 1908 gyfrol fechan,

*Duwinyddiaeth Emynau.*

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96)

Gwybodaeth gan y teulu

Adnabyddiaeth bersonol

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Thomas Jones](#)

## Gweithiau

Thomas Jones, *Esther* (Treffynnon 1864)

Thomas Jones, *Pregethwr y bobl, neu, Fyfyrdodau a achlysurwyd gan farwolaeth y Parch. John Jones, Tal-y-sarn* (Wyddgrug 1858)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [141137276](#)

Wikidata: [Q13131882](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

